**Adroddiad i'r: Cyngor**

**Dyddiad y Cyfarfod: 3 Rhagfyr 2013**

**Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Hugh Irving - Aelod Arweiniol dros Dai; Peter McHugh, Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol**

**Awdur yr Adroddiad: John Sweeney, Rheolwr Gofal a Chefnogaeth Tai**

**Teitl: Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Rhanbarth Gogledd Cymru**

---

## 1. Beth yw pwrpas yr adroddiad?

Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru (GTANA) a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor.

Mae Cynghorau Sir Gogledd Cymru sef Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd wedi comisiynu Prifysgol Bangor ar y cyd i ymgymryd ag ymchwil ac asesu angen llety Sipsiwn a Theithwyr heb ei gyflawni.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n annog "awdurdodau lleol i weithio’n rhanbarthol a rhannu'r cyfrifoldeb cyfreithiol, moesol, ariannol a gwleidyddol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb llety a brofir gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru" (Teithio at Ddyfodol Gwell, Llywodraeth Cymru).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn:

3.1 nodi ac yn rhoi sylwadau ar argymhellion "Adroddiad Prifysgol Bangor"; y bydd yn ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu 2 safle preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (y ddau gyda lle i hyd at 4 carafán) ac un safle teithiol ar gyfer hyd at 7 carafán ar sail tymor byr - i’w ddatblygu ar sail isranbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; a

3.2 chefnogi cyfansoddiad a chylch gwaith arfaethedig y grŵp llywio, fel yr amlinellir yn Atodiad 2, i fwrw ymlaen â'r argymhellion.

4. **Manylion yr adrodd.**

Mae Crynodeb Gweithredol GTANA Gogledd Cymru gan Brifysgol Bangor yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion allweddol ac mae ynghlwm er mwyn cyfeirio ato. (Atodiad 1).

Cyfanswm y ddarpariaeth bresennol o safleoedd ar draws yr Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan yw 78 llain, 66 ohonynt wedi eu lleoli o fewn Sir y Fflint a 12 yng Ngwynedd.

Mae canfyddiadau'r Adroddiad yn dangos bod angen cynyddu'r ddarpariaeth o safleoedd gan 62 o leiniau preswyl pellach a 28 o leoedd carafannau teithio erbyn 2016. Mae'r gofyniad twf ar gyfer lleiniau preswyl yn cael ei nodi fesul Awdurdod Lleol; ond ar gyfer gofynion teithiol mae'n cael ei nodi fel ffigwr rhanbarthol yn unig.

Argymhellir bod yr Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan yn nodi a datblygu ar y cyd tri neu bedwar safle teithiol ar draws y rhanbarth gyda phob un yn cynnig lle i hyd at saith o garafannau.

O ran darpariaeth statig nodir y dylai Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ddarparu ar gyfer dau safle preswyl.

Y cyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yw mabwysiadu'r GTANA gan iddo nodi'r angen am lety o fewn Sir Ddinbych a bydd yn rhaid i'r Cyngor ymateb. Mae'r gofyniad hwn ar awdurdodau lleol yn cael ei gryfhau ymhellach gan Lywodraeth Cymru yn y Papur Gwyn lle mae mandad ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr lle mae tystiolaeth bod angen yn bodoli. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod y Cyngor yn cynnal trafodaeth gyda'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn sicrhau y bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan y safleoedd arfaethedig y gellir eu cynnig.

Dylid nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mynd trwy broses debyg a allai gyflwyno cyfle i gydweithio lle bo'n briodol, yn enwedig mewn perthynas â darparu safle teithiol isranbarthol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r cynnig yn bodloni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol sy'n ymwneud â sicrhau:

- Bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu a'u bod yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**Adnoddau ychwanegol sydd eu hangen**

**Ariannol**

Pe bai’r Cyngor yn penderfynu datblygu darpariaeth o safleoedd gallai fod yna gost cyfalaf gan gynnwys caffael tir a darparu gwasanaethau. Mae'n werth nodi y gellir ymgeisio am gymorth grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i fodloni'r costau hyn, ond mae'r rhain yn gyfyngedig ac yn amodol ar broses ymgeisio. (Atodiad 3) Efallai y bydd yna gyfrifoldebau rheoli a goruchwylio parhaus a fydd yn cael ei gynnwys o fewn y broses arfarnu safleoedd. Bydd opsiynau ar gyfer rheoli safleoedd gan gynnwys a yw'n bosibl i gynnal y gwasanaeth yn fewnol, yn allanol neu ddatblygu ymagwedd gydweithredol yn cael eu hystyried fel rhan o arfarniad opsiynau.

Mae'n bosibl y bydd y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn awyddus i brynu tir a datblygu eu safle eu hunain. Yn yr amgylchiadau hyn rôl y Cyngor fyddai helpu i ddod o hyd i safleoedd addas o fewn cyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a sicrhau bod datblygiad dilynol yn cwrdd â gofynion statudol.

Ar hyn o bryd nid yw’n bosibl nodi beth fydd y gofynion o ran adnoddau fydd eu hangen gan nad oes safleoedd wedi cael eu nodi eto. Cefnogir unrhyw safleoedd arfaethedig gan achos busnes fel rhan o'r broses arfarnu opsiynau.

Derbyniwyd enghreifftiau o drefniadau ar gyfer darparu safleoedd, trefniadau rheoli a chostau cysylltiedig gan Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddangos yn fras y gost ddangosol briodol i’r aelodau o safbwynt ymrwymiad refeniw. (Atodiad 4).

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i gwblhau gael ei amgáu fel atodiad gyda’r adroddiad.**

Cynhaliwyd Asesiad ar Effaith o Gydraddoldeb ac nid oes unrhyw oblygiadau negyddol posibl o effaith ar gydraddoldeb wrth fabwysiadu Adroddiad GTANA (Atodiad 5).

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

Ystyriwyd adroddiad ar y pwnc hwn gan Bwyllgor Archwilio Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych ar 17 Hydref 2013. Gwrthododd y Pwyllgor Archwilio’r cynnig ar benderfyniad hollt ac roedd adborth gan aelodau’n argymell y byddai’n ddefnyddiol cael mwy o fanylion am gostau cyfredol delio â gwersylloedd anghyfreithlon a chostau sy'n gysylltiedig â darparu lleiniau yn unol ag argymhelliad GTANA i aelodau ei ystyried sydd wedi eu hymgorffori o fewn yr atodiadau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

Sylwer yr ymgynghorwyd â’r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar draws yr Awdurdodau Lleol oedd yn rhan o "Asesiad" Prifysgol Bangor i nodi anghenion llety.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid yw costau’n ymwneud â chreu safleoedd preswyl a thramwy ar gael ar hyn o bryd a bydd yn amodol ar ddarparu achos busnes yn manylu goblygiadau ariannol i'r Cyngor ar gyfer unrhyw safleoedd a argymhellir.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r data a gasglwyd drwy'r broses "Asesiad Llety" yn hysbysu'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Un o'r profion ar gadernid Cynllun Datblygu Lleol drafft wrth ei archwilio yw p'un a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy.

Pan ffurfiwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych nid oedd GTANA rhanbarthol Gogledd Cymru wedi’i gwblhau’n llwyr; fodd bynnag, mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych wedi’i ysgrifennu yn y fath fodd i ddarparu diweddariadau yn y dyfodol yn seiliedig ar y data a thystiolaeth sydd ar gael. O gofio bod y GTANA bellach wedi dod i ben ac wedi nodi’r angen i ddarparu safleoedd yn y Sir, gallai Cyngor Sir Ddinbych wynebu her gyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb os gwrthodir caniatâd cynllunio ar gyfer safle sydd fel arall yn dderbyniol.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r "GTANA" a CBS Conwy wedi’i gyhoeddi ar gais yr Arolygydd a gynhaliodd yr arolygiad o’u CDLl. Mae'r Cynghorau Sir a gomisiynodd y GTANA yn mynd â’r canfyddiadau trwy eu prosesau gwleidyddol priodol. Mae'n werth nodi bod Sir y Fflint a Wrecsam yn ceisio ehangu eu safleoedd ar gyfer hyd at 30 o garafannau a darparu safleoedd teithiol ychwanegol. Mae Cynllun Datblygu Lleol Conwy yn ymrwymo'r Awdurdod i ddod o hyd i safle addas ar gyfer ystyriaeth gynllunio erbyn mis Mawrth 2014, tra bod Gwynedd eisoes yn darparu safle ar gyfer Teithwyr ac Ynys Môn yn ystyried cyflwyno papur i'r aelodau i geisio cymeradwyaeth i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Mae’r Awdurdodau eraill a gomisiynodd GTANA Gogledd Cymru ar y cyd wedi derbyn neu’n argymell derbyn canfyddiadau'r astudiaeth ymchwil hon; o ganlyniad gall Sir Ddinbych gael ei neilltuo fel yr unig Awdurdod Lleol i beidio â mabwysiadu'r GTANA a allai arwain at graffu pellach / cosbau gan Lywodraeth Cymru a her gyfreithiol posibl gan y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Os bydd y Cyngor yn methu â darparu safleoedd priodol ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yna mae’r nifer o wersylloedd anghyfreithlon yn debygol o barhau ac o bosibl gynyddu. Mae'n werth nodi y bu 24 o achosion o Sipsiwn a Theithwyr yn gwersylla’n anghyfreithlon yn y 3 blynedd ddiwethaf ac mae pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru wedi gweld cynnydd mewn gwersylloedd anghyfreithlon yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ni ddylid diystyru effaith economaidd gwersylloedd heb awdurdod, nid yn unig drwy gostau clirio sylweddol posibl – costiodd gwersyll anghyfreithlon diweddar ym Mharc Diwydiannol Ffordd Cefndy, Y Rhyl yn ystod yr haf £5,000 gan achosi cryn aflonyddwch ac anghyfleustra i fusnesau oedd yn gweithio ar y parc diwydiannol. Roedd un busnes amlwg lleol mewn cyfarfod gyda'r Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol yn erfyn ar y cyngor i wneud popeth o fewn ei allu i atal gwersylloedd anghyfreithlon gan ddatgan os byddent yn parhau i amharu ar ei fusnes y byddai angen ystyried adleoli o'r Rhyl ac o bosibl symud o Sir Ddinbych .

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.2 (a) o Gyfansoddiad y Cyngor yn rhoi grym i'r pwyllgor wneud argymhellion mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.